

14. i roi gofal personol i breswylwyr unrhyw gartref gofal preswyl neu nyrso ond o dan oruchwyliaeth oedolyn cyfrifol.



Mae arnom eisiau i chi fod yn ddiogel;

- Byddwch yn ofalus a synhwyrol eich hun
- Dywedwch wrth eich pennaeth am unrhyw bryderon
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gofyn i'r cyflogwr hysbysu'r awdurdod lleol eich bod yn gweithio yno
- Peidiwch â gwneud unrhyw dasg a allai achosi niwed neu anaf i chi
- Peidiwch â gadael i'r gwaith effeithio ar eich gwaith ysgol

Gellir eich atal rhag gweithio;

- Os na fydd eich cyflogwr yn hysbysu'r awdurdod o fewn un wythnos o gychwyn cyflogaeth ac os nad oes gennych drwydded waith
- Os bydd eich gwaith ysgol yn dioddef
- Os bydd eich iechyd yn dioddef

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag:
Arweinydd Tîm Presenoldeb
yng Nghyfarwyddiaeth Plant ac
Ysgolion yr awdurdod:

📞 01437 764551



Gwasanaeth Cefnogi Disgyblion

Sir Benfro



Cyflogi Plant

Darllenwch y daflen hon os ydych cyn ddisgybl ysgol



Cyngor Sir Penfro
("yr awdurdod")
Cyfarwyddiaeth Plant ac Ysgolion
Neuadd y Sir, Hwlfordd
Sir Benfro, SA61 1TP
01437 764551

www.sir-benfro.gov.uk

- Mae'n rhaid i chi fod yn 13 mlwydd oed i fedru gweithio ac ni chaiff hyn fod yn ddim ond gwaith ysgafn, ac os ydych chi o dan 14, ni chaiff fod ond mewn rhai categorïau penodol o waith.
- Ni chewch weithio ond ar ôl 7:00 a.m. neu cyn 7:00 p.m.
- O fewn un wythnos i'ch cyflogi chi, mae'n rhaid i'ch cyflogwr hysbysu'r awdurdod, ac os yw'r awdurdod yn fodlon ar rai amodau, bydd yn rhoi trwydded waith i chi.
- Ar ddiwrnod ysgol, ni chewch weithio ond am 2 awr ar y mwyaf, a dim cyn 7 a.m. nac ar ôl 7 p.m. (un awr cyn ac un awr ar ôl oriau'r ysgol, neu 2 awr ar ôl oriau'r ysgol).
- Os ydych chi'n 13 neu 14 mlwydd oed, cewch weithio 5 awr y dydd ar ddydd Sadwrn ac yn ystod gwyliau'r ysgol ar unrhyw ddiwrnod nad yw'n ddydd Sul.
- Os ydych chi'n 15 neu drosodd, cewch weithio 8 awr y dydd ar ddydd Sadwrn ac yn ystod gwyliau'r ysgol ac ar unrhyw ddiwrnod nad yw'n ddydd Sul.
- Ni chewch weithio am fwy na 2 awr ar ddydd Sul.
- Ni chewch weithio am fwy na 4 awr yn unrhyw ddiwrnod heb seibiant o un awr i orffwys.

- Cewch weithio am 12 awr yr wythnos ar y mwyaf yn ystod amser tymor ysgol.
- Os ydych chi'n 13 neu 14 mlwydd oed, ni chewch weithio ond am 25 awr yr wythnos ar y mwyaf yn ystod gwyliau'r ysgol.
- Os ydych chi'n 15 neu drosodd, ni chewch weithio ond am 35 awr yr wythnos ar y mwyaf yn ystod gwyliau'r ysgol.
- Rhaid i chi gael 2 wythnos yn olynol o leiaf heb waith mewn blwyddyn yn ystod amser o'r flwyddyn pan nad yw'n ofynnol i chi fynychu'r ysgol.
- Ni chewch adael yr ysgol tan y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin o flwyddyn 11 hyd yn oed os oes gennych Rif Yswiriant Gwladol.
- Plentyn ydych chi mewn Cyflogaeth tan y dyddiad y byddwch yn Gadael yr Ysgol.

Ni cheir cyflogi plentyn o unrhyw oed yn y canlynol:-

1. mewn sinema, theatr, discotéc, neuadd ddawns na chlwb nos, ac eithrio mewn cysylltiad â pherfformiad a roddir yn gyfan gwbl gan blant;
2. i werthu neu ddanfôn alcohol, ac eithrio mewn cynwysyddion dan sêl;
3. i ddanfôn llefrith;

4. i ddanfôn olew tanwydd;
5. mewn cegin fasnachol;
6. i gasglu neu ddioli sbwriel;
7. yn unrhyw waith sydd yn fwy na thair metr uwchlaw lefel y ddaear neu, yn achos gwaith mewnol, mwy na thair metr uwchben lefel y llawr;
8. mewn gwaith sy'n golygu bod yn agored, i gyfrwng ffisegol, biolegol neu gemegol, niweidiol.
9. i gasglu arian neu i werthu neu ganfasio o ddrws i ddrws, ac eithrio dan oruchwyliaeth oedolyn;
10. mewn gwaith sy'n golygu bod yn agored i ddeunyddiau oedolion neu mewn sefyllfaoedd sydd, am y rheswm hwn neu fel arall, yn anaddas i blant;
11. mewn gwerthu dros y ffôn;
12. yn unrhyw ladd-dy neu yn y rhan honno o siop cigydd neu adeilad arall cysylltiedig â lladd anifeiliaid, bwtsiera, nac yn y gwaith o baratoi sgerbydau neu gig i'w werthu;
13. fel gwas neu gynorthwydd mewn ffair neu arcêd difyrrwch neu ar unrhyw safle arall a ddefnyddir i'r pwrpas o ddifyrru'r cyhoedd drwy gyfrwng peiriannau awtomatig, gemau siawns neu sgil neu ddyfeisiadau tebyg;